A CRAFT Festival WALES Event | Digwyddiad GŴYL Grefft CYMRU

# GOLD | AUR

**AUGUST | AWST 01 – SEPTEMBER | MEDI 13**
Oriel Canfas Gallery, Aberteifi

Mai 2026

## Yr Eisteddfod, Canfas, a Gŵyl Grefft Cymru
## Yn Uno i Ddathlu Creadigrwydd Aberteifi

## Eisteddfod, Canfas, and Craft Festival Wales
## Unite to Celebrate Creativity in Cardigan

English below

Yr haf hwn, mae tri sefydliad diwylliannol blaenllaw yn dod at ei gilydd i ddathlu creadigrwydd, gwneud, a threftadaeth ddiwylliannol Cymru yng nghanol Aberteifi.

I ddathlu dychweliad yr Eisteddfod Genedlaethol i Orllewin Cymru, mae Gŵyl Grefft Cymru'n cyflwyno *Aur/Gold*, sef arddangosfa carreg filltir a drefnwyd mewn partneriaeth â'r Eisteddfod Genedlaethol ac Oriel Canfas.

**Oriel Canfas Aberteifi yw Noddwr Medal Aur Celfyddyd Gain Eisteddfod Genedlaethol 2026**

Bydd *Aur/Gold* yn agor ar ddydd Sadwrn 1af Awst yn Oriel Canfas, ac mae'n dathlu cyn-enillwyr Medal Aur yn Y Lle Celf, gan ddod â rhai o'r gwneuthurwyr a'r artistiaid cyfoes mwyaf clodfawr yng Nghymru at ei gilydd. Mae'r arddangosfa'n cyd-daro â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Y Garreg Las, y tu allan i Aberteifi, a bydd yn parhau tan ddiwedd penwythnos Gŵyl Grefft Cymru yng Nghastell Aberteifi.

Curadwyd *Aur/Gold* gan yr artist Suzi Park a Chyfarwyddwr Gŵyl Grefft, Sarah James MBE, ac mae'n arddangos doniau eithriadol ym maes cerameg, metel, tecstilau, arian a gwydr, gan amlygu etifeddiaeth eithriadol Y Lle Celf a phwysigrwydd parhaus crefft a chelfyddyd gain yng Nghymru.

Mae'r arddangosfa hefyd yn rhan o'r dathliadau sy'n dynodi 850 mlynedd ers yr Eisteddfod gyntaf ar gofnod, a gynhaliwyd yng Nghastell Aberteifi yn 1176 gan yr Arglwydd Rhys. Mae hon felly yn ennyd ddiwylliannol tra arwyddocaol i'r dref ac i Gymru.

*"Yr artistiaid hyn yw'r goreuon ymhlith y gwaith mae Cymru'n ei gynhyrchu – yn cael cydnabyddiaeth ar y lefel uchaf, ond yn anaml yn cael cyfle i ymddangos gyda'i gilydd. Mae llwyddo i gynnwys enillwyr y Fedal Aur dros nifer o ddegawdau mewn un arddangosfa yn gyflawniad unigryw, ac ni fyddem wedi llwyddo i wneud hyn ar ein pen ein hunain. Mae'r cydweithrediad hwn gyda Gŵyl Grefft Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol wedi creu rhywbeth sy'n llawer mwy na'r un ohonom – ac mae cyflawni hyn yma, yn Aberteifi, yn rhywbeth sy'n fwy nag arddangosfa. Mae'n teimlo fel digwyddiad croeso'n ôl go iawn".*
**James Horan, Cyfarwyddwr Oriel Canfas**

*"Mae'n anrhydedd mawr cael cyfrannu at arddangosfa mor bwysig, sy'n digwydd ar gyfnod gwirioneddol unigryw yn hanes Cymru. Mae rhestr enwau'r artistiaid sy'n cymryd rhan yn Aur yn cynrychioli'r goreuon ym myd crefft a chelfyddyd gain, yn ystod Eisteddfod eleni ac wrth ddathlu 850 mlynedd ers yr Eisteddfod gyntaf yng Nghastell Aberteifi – mae'n foment arbennig iawn."*
**Sarah James, MBE, Cyfarwyddwr, Gŵyl Grefft Cymru**

*"Mae hen hanes i'r Medalau Aur mewn Celfyddyd Gain ac mewn Crefft a Dylunio ym myd y Celfyddydau Gweledol yng Nghymru, ac mae'r anrhydedd o ennill un o'r gwobrau hyn yn bwysig iawn i'n hartistiaid.*

*Mae'r gwobrau'n rhoi cyfle i ni, fel cenedl, ddathlu ac ymfalchïo yn ein hartistiaid, yn yr un ffordd ag y dathlwn ein hysgrifenwyr a'n beirdd. Fel Cydgysylltydd Y Lle Celf, a chyn-enillydd y wobr grefft, rwy'n ymwybodol iawn o'r anrhydedd hwn, ac rwy'n ymfalchïo yn y dathliad hwn o gyn-enillwyr y ddwy fedal yn Oriel Canfas.*

*Estynnaf ddiolch arbennig i James Horan a David Clarke o Oriel Canfas ac i Sarah James o'r Ŵyl Grefft am eu holl gefnogaeth, a diolch o galon hefyd i James a David o Canfas am eu rhodd hael, sef y Fedal Aur ar gyfer Celfyddyd Gain yn Eisteddfod Y Garreg Las eleni."*
**Lowri Davies, Cydgysylltydd *Y Lle Celf***

*"Amcanion Gŵyl Grefft: creu cyfleoedd economaidd ystyrlon i wneuthurwyr; dathlu treftadaeth a diwylliant dwyieithog Cymru; ennyn diddordeb cynulleidfaoedd amrywiol; cryfhau enw da Aberteifi fel cyrchfan diwylliannol; a dod â mewnfuddsoddiad i Geredigion, amcanion sy'n cydweddu'n agos â'n cenhadaeth ninnau. Mae Gŵyl Grefft Cymru yn enghreifftio gwerthoedd cydweithrediad, creadigrwydd a chymuned.*
*Mae ei phartneriaeth â'r Eisteddfod Genedlaethol yn adlewyrchu ein hymrwymiad a rennir i feithrin diwylliant Cymru, cefnogi gwneuthurwyr a sicrhau bod y celfyddydau'n parhau i fod yn hygyrch ac yn berthnasol i bawb!'*
**Betsan Moses, Prif Weithredwr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru**

**Gwybodaeth am yr Arddangosfa**
Aur/Gold
1 Awst - 13 Medi 2026
Oriel Canfas
Tŷ Manceinion
Aberteifi
SA43 1HY

**Dyddiadau Allweddol**
Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las 1–8 Awst **
Gŵyl Grefft Cymru 11–13 Medi

Yn ddathliad o ragoriaeth, treftadaeth a chreadigrwydd Cymreig cyfoes, mae *Aur/Gold* yn gosod Aberteifi yng nghanol calendr diwylliannol Cymru yr haf hwn.

Hwylusir Gŵyl Grefft Cymru trwy gyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Digwyddiadau Cymru drwy Lywodraeth Cymru.

Instagram: @CraftFestival
Facebook: Yr Ŵyl Grefft
Ymholiadau'r cyfryngau: Cysylltwch â Sarah James MBE yn [hello@craftfestival.co.uk](mailto:hello@craftfestival.co.uk) neu Anne-Marie Shepherd yn [Annemarie.francis@gmail.com](mailto:Annemarie.francis@gmail.com)

## Eisteddfod, Canfas, and Craft Festival Wales Unite to Celebrate Creativity in Cardigan

This summer, three major cultural organisations come together to celebrate Welsh creativity, making and cultural heritage in the heart of Cardigan.

To mark the return of the National Eisteddfod to West Wales, Craft Festival Wales presents *Aur/Gold*, a landmark exhibition created in partnership with the National Eisteddfod and Oriel Canfas.

**Oriel Canfas in Cardigan is proud sponsor of the 2026 Eisteddfod Gold Medal for Fine Art.**

Opening on Saturday 1 August at Canfas Gallery, *Aur/Gold* celebrates past Gold Medal winners from Y Lle Celf, bringing together some of the most acclaimed makers and artists working in Wales today. The exhibition coincides with the National Eisteddfod Y Garreg Las, being held just outside Cardigan, and continues through to the closing weekend of Craft Festival Wales at Cardigan Castle.

Curated by artist Suzi Park and Craft Festival Director, Sarah James MBE, *Aur/Gold* showcases exceptional talent across ceramics, metal, textiles, silver and glass, highlighting the extraordinary legacy of Y Lle Celf and the enduring importance of Welsh craft and fine art.

The exhibition also forms part of celebrations marking the 850th anniversary of the first recorded Eisteddfod, held at Cardigan Castle in 1176 by Lord Rhys, making this a particularly significant cultural moment for the town and for Wales.

*“These are artists who represent the very best of what Wales produces — recognised at the highest level and rarely seen together. To bring Gold Medal winners spanning several decades into one exhibition feels like a genuinely rare moment, and one we couldn't have achieved alone. This collaboration with Craft Festival Wales and the National Eisteddfod has made something much larger than any of us — and to do it here, in Cardigan, feels like more than an exhibition. It feels like a proper homecoming”.*
**James Horan, Director of Oriel Canfas**

*“It is a huge honour to be involved in such an important exhibition, that comes at a truly unique time in Welsh history. The roll call of artists taking part in Aur, represents the very best in craft and fine art, during this year’s Eisteddfod and the 850th Anniversary of the first Eisteddfod at Cardigan Castle, is a very special moment.”*
**Sarah James, MBE, Director, Craft Festival Wales**

*“The Gold Medals in Fine Art and in Craft and Design have a long history within the visual Arts in Wales, and the honour of winning one of these awards is of great significance to our artists.*

*The awards give us, as a nation, an opportunity to celebrate and take pride in our artists, in the same way that we celebrate our writers and poets.*
*As Co-ordinator of the Lle Celf, and as a former winner of the craft award, I am very aware of this honour, and I take great pride in this celebration of former winners of both medals at Oriel Canfas.*

*A special thank you to James Horan and David Clarke from Oriel Canfas and to Sarah James from Craft Festival, for all their support, and a special thank you to James and David from Canfas for their generous donation of this year’s Gold Medal for Fine Art at the Garreg Las Eisteddfod.”*
**Lowri Davies, Co-ordinator of *Y Lle Celf***

*“Craft Festival’s objectives: creating meaningful economic opportunities for makers; celebrating Welsh heritage and bilingual culture; engaging diverse audiences; strengthening Cardigan’s reputation as a cultural destination; and bringing inward investment to Ceredigion, align closely with our own mission. Craft Festival Wales exemplifies the values of collaboration, creativity and community.*

*Its partnership with the National Eisteddfod reflects our shared commitment to nurturing Welsh culture, supporting makers and ensuring that the arts remain accessible and relevant to all!'*
**Betsan Moses, Chief Executive, National Eisteddfod of Wales**

**Exhibition Information**
Aur/Gold
1 August – 13 September 2026
Oriel Canfas
Manchester House
Cardigan
SA43 1HY

**Key Dates**
National Eisteddfod Y Carreg Las 1–8 August
Craft Festival Wales 11–13 September

A celebration of excellence, heritage and contemporary Welsh creativity, *Aur/Gold* places Cardigan at the centre of Wales's cultural calendar this summer.

Craft Festival Wales is made possible with funding from Arts Council of Wales and Event Wales via Welsh Government.

Instagram: @CraftFestival
Facebook: The Craft Festival
Media enquiries: Contact Sarah James MBE on hello@craftfestival.co.uk or Anne-Marie Shepherd on Annemarie.francis@gmail.com